

Annwyl

ATISN23321

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 30 Ionawr 2025. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

- Copi o'r cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 rhwng swyddogion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.
- Os oes unrhyw gyfarfodydd dilynol wedi'u cynnal rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.

Our response

1. Copi o'r cofnodion o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd 2023 rhwng swyddogion Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.

Rydym yn asesu dogfen o'r enw "20231114 Nodyn cyfarfod Duolingo" ac yn ystyried a ddylid atal y ddogfen, neu rannau o'r ddogfen, o dan yr eithriadau canlynol yn y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth:

- Adran 41: Gwybodaeth a Ddarperir yn Gyfrinachol
- Adran 43: Buddiannau Masnachol

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi penderfynu eto ynghylch y cydbwysedd o ran budd cyhoeddus. Oherwydd yr angen i ystyried, ar sail holl amgylchiadau'r achos, beth yw'r cydbwysedd o ran budd cyhoeddus mewn perthynas â'r wybodaeth rydych wedi gofyn amdani, ni fydd modd i Lywodraeth Cymru ymateb i'ch cais o fewn 20 diwrnod gwaith.

Rwy'n gobeithio anfon ateb atoch erbyn **12 Mawrth 2025**.

2. Os oes unrhyw gyfarfodydd dilynol wedi'u cynnal rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr Duolingo Inc.

Ni chynhaliwyd unrhyw gyfarfodydd dilynol rhwng cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a Duolingo.

Y camau nesaf

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru

Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir